## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar 3ydd Medi 2003 am 10.00am.

### PRESENNOL

Y Cynghorwyr F D Jones (Cadeirydd), B Blakeley, (sylwebydd) J Butterfield, G Clague, Sophia Drew, E C Edwards, A E Fletcher-Williams, I M German, M A German, K N Hawkins, D M Holder, N J Hughes, R W Hughes, N Hugh-Jones, D Jones, E R Jones, G Jones, P M Jones, R J R Jones, A Owens (cyrhaeddodd 10.20), F Shaw, D A Thomas, D A J Thomas, S Thomas, K E Wells, C H Williams, P O Williams a RLl Williams (cyrhaeddodd 10.30), D Bryn Jones (Cyfieithydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio Dros Dro, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Prif Swyddog Cynllunio a Gorfodaeth, Prif Swyddog Cynllunio (De), a'r Swyddog Gweinyddol (G Butler).

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr R E Jones, S Kerfoot Davies a J Smith.

**364 MATERION BRYS**

Awgrymodd y Cynghorydd N Hugh Jones y dylai ceisiadau ôl-weithredol ymddangos ar wahân ar yr agenda.

Gofynnodd y Cadeirydd gael trafod hyn gyda'r swyddogion.

**365 CAIS AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a rannwyd o'r blaen) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac y dylid penderfynu arnynt gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, sydd yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a chyflwyno caniatâd cynllunio, neu wrthod fel y bo'n briodol, o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a / neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 y datblygiadau a argymhellir gan y cynlluniau canlynol sydd yn y rhestr a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatad

| Rhif Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 01/2003/0815/PF | Newid manylion y gosodiad ar gyfer ail leoli mynedfa gerbydau ac ail leoli garejis ar gyfer lleiniau 1,2 a 3 (a gymeradwywyd o'r blaen o dan gôd caniatâd rhif 01/2002/0552/PF) ar: Safle Cyn Ystrad House, Lôn y Parc, Dinbych.<br>*Yn amodol ar:* Ddileu Amod 11 a'r diwygiadau canlynol i Amodau 1,8 a 10.<br>1. Ni chaniateir byw yn yr aneddleoedd nes cwblheir y datblygiadau canlynol i gyd:<br>(i) Mynedfa gerbydau oddi ar Lôn y Parc yn unol â'r cynllun safle cymeradwy rhif G/04. |

(ii) Lledu'r ffordd ar hyd Lôn y Parc – ffordd gyswllt St David's Lane at led cerbydffordd 4.1 medr a phalmant 1.2 medr o led; ail osod wal Lôn y Parc ar flaen y safle a'r oll i'w cwblhau'n gwbl yn unol â'r cynllun cymeradwy G/04, G/07A a'r manylion adeiladu y cytunwyd yn eu cylch yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, cyn symud ymlaen â'r gwaith:

(iii) Ffordd fewnol yr ystâd i'w chwblhau'n gwbl unol â'r cynllun cymeradwy rhif G/04 a'r manylion adeiladu, dyluniad, gosodiad, goleuo stryd, arwyddion a marcio fel y cytunwyd yn eu cylch yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Lleol cyn symud ymlaen â'r gwaith.

(iv) Waliau mewnol yr ystâd yn unol â'r cynllun cymderadwy rhif G/09 ac amodau eraill y caniatâd hwn.

8. Ni chaniateir i neb fyw yn yr aneddleoedd nes cael caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch cynllun tirlunio manwl – caled a meddal - ar gyfer y safle, a bydd y cynllun yn cynnwys manylion ynghylch:

(a) holl goed, gwrychoedd a llystyfiant presennol sydd ar y tir, manylion y rhai sydd i'w cadw a mesurau ar gyfer eu hamddiffyn yn ystod y cyfnod datblygu.

(b) coed, gwrychoedd, prysglwyni a llystyfiant newydd, gan gynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, niferoedd a lleoliad a'r amser plannu arfaethedig;

(c) gwaith arfaethedig pridd, graddio a phentyrru pridd a'r newidiadau mewn cyfliniadau terfynol, a pherthynas y pentyrru arfaethedig gyda ffurf y tir a'r llystyfiant cyfagos.

10. Yn ogystal â'r manylion a gyflwynwyd.

(i) ni fydd lleoliad a defnyddiau'r wal allanol arfaethedig i'w defnyddio ar y garejis G2 a G3 fel a ddangosir ar y cynllun cymeradwy ond bydd fel y cytunir yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y gwaith.

(ii) ni fydd manylion y waliau terfyn ar hyd St David's Lane fel a ddangosir ar y cynllun cymeradwy ond fel y cytunir yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae'n rhaid i'r datblygu fod yn gwbl unol â'r manylion a gytunwyd mewn perthynas â 10(i) a 10(ii) cyn fod neb yn byw yn unrhyw un o'r aneddleoedd sydd wedi'u cymeradwyo.

| | |
|---|---|
| 01/2003/0743/PF | Ail ddatblygu twr latis telegyfathrebu presennol at uchder o 20.50 medr er mwyn gwneud lle ar gyfer gweithredydd ychwanegol yn Uned 14, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Ffordd y Rhyl, Dinbych. |
| 03/2003/0464/AD | Gosod arwydd panel bocs ATM wedi'i oleuo'n fewnol ar ATM presennol ym Manc Barclays ccc, 2 Stryd y Castell, Llangollen (Dymunai'r Cynghorwyr Sophia Drew a Neville Hugh Jones gofnodi eu bod wedi pleidleisio dros wrthod caniatâd). |
| 03/2003/0417/PF | Troi garej yn ystafell arlwyo, adeiladu teras, mynedfa droed newydd ar balmant a thir lunio a seddau cysylltiedig â defnyddio'r ardd fel man bwyta awyr agored ar: |

Tir gyferbyn â'r Royal Hotel, Stryd y Bont, Llangollen.

*Yn amodol ar:* Amod Newydd 7.

7. Yn ogystal â'r manylion a gyflwynwyd, ni chaniateir dechrau ar y datblygiad nes derbyn caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch manylion y fynedfa ar droed a'r llidiart a manylion y meinciau a byrddau arfaethedig a'r modd o ddiogelu'r safle rhag mynediad gan y

cyhoedd y tu allan i'r oriau a ganiateir ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth.
Rheswm: Er mwyn mwynder cyffredinol a mwynderau deilwyr yr eiddo gerllaw.
(Dymunai'r Cynghorwyr N Hugh Jones a P O Williams gofnodi eu bod wedi pleidleisio dros wrthod caniatâd)

05/2003/0149/PF

Estyniad i anheddle presennol yn Berwyn House, Carrog, Corwen
(Dymunai'r Cynhorydd Sophia Drew gofnodi ei bod wedi pleidleisio dros wrthod caniatâd.)

18/2003/0546/PF

Newidiadau i anheddle presennol gan gynnwys gosod ffenestr to a drws newydd gyda grisiau yn yr Efail, Plas Bennett, Llandyrnog, Dinbych.

22/203/0299/PO

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth: S Darlington, Cae Bach, 2 Tan y Foel, Gellifor.
Datblygu tir drwy ddymchwel adeiladau presennol a chodi 2 Anheddle ac 1 byngalo Dormer, gan gynnwys mynedfa a lleoliad yr adeiladau (cais amlinellol) ar
Tir ger Bodhyfryd, Gellifor, Rhuthun.
*Yn amodol ar:* Amod newydd 10.
10. Ymdriniwyd â'r bras gynlluniau ar gyfer anheddle llain 3 er mwyn egluro'n unig ac nid ydynt yn ffurfio rhan o'r caniatâd.
Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth.
Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:
1. O ystyried y berthynas rhwng y safle a'r eiddo gerllaw fe'ch cynghorir i drafod syniadau bras ynghylch manylion yr aneddleoedd cyn cyflwyno'r cynlluniau'n ffurfiol.
2. Tynnwyd sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol at hawliau tramwy drwy'r safle at fusnesau presennol ac eiddo trigiannol. Dylech sicrhau fod y gosodiad manwl yn cymryd sylw digonol o'r rhain. Nid yw caniatâd cynllunio'n golygu caniatâd i ymyrryd â neu fynd y tu hwnt i unrhyw hawliau mynediad cyfreithiol preifat a allai fodoli.

43/2003/0472/PF

Codi 6 Anheddle a ffurfio mynedfa a darpariaethau parcio yng Nghanolfan Arddio Melidan, 113, Ffordd Talargoch, Prestatyn.
*Yn amodol ar:* Amodau Newydd 11, 12 a 13.
Diwygio Amod 2 - "tawelu traffig" (dileu'r atalnod)
11. Ni cheir gollwng unrhyw ddwr wyneb i garthffos dwr budr.
12. Yn ogystal â'r manylion a nodir ar Gynllun Rhif 1621/1A/JAN/03 a dderbyniwyd ar 18fed Awst 2003, ni chymeradwyir lefel llawr gorffenedig Llain 5 a rhaid cyflwyno manylion pellach ynghylch lefel llawr gorffenedig Llain 5 a derbyn cymeradwyaeth yn ysgrifenedig cyn dechrau adeiladu'r anheddle ar Lain 5. Rhaid codi'r anheddle'n gwbl unol â'r manylion cymeradwy.
Rheswm: Er budd y trigolion a mwynder gweledol.
13. Yn ogystal â'r manylion a nodir ar Gynllun Rhif 1621/1A/JAN/03 a dderbyniwyd ar 18fed Awst 2003, ni chymeradwyir y ffens sgrinio ar y pen troi a rhaid cyflwyno manylion pellach o'r tir lunio i'r pen troi o dan delerau Amod 8 o'r Caniatâd Cynllunio hwn.
Rheswm: Er mwyn mwynder gweledol.

Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd.
1. Tynnir eich sylw at Nodiadau Ychwanegol Priffyrdd sydd ynghlwm Rhifau 1,3,4,5,6,7,8,9 a 10.
2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N ynghlwm (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).
3. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd ynghlwm ynghylch manylion adeiladu ffordd, nodiadau ar gyfer goleuo a gosod goleuadau priffyrdd a'r anghenion cyffredinol ar gyfer arwyddion traffig a marcio ffordd.
3. Fe'ch cynghorir fod llwybr cyhoeddus ger y datblygiad. Rhaid peidio ag amharu ar y llwybr yn ystod y gwaith adeiladu.
(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew gofnodi ei bod wedi pleidleisio dros wrthod caniatâd)

| | |
|---|---|
| 43/2003/0695/PF | Codi estyniad un llawr gyda tho brig ar flaen ty annedd yn 29 Bryn Court Prestatyn. |
| 43/2003/0733/PF | Codi estyniad un llawr gyda tho brig yn nghefn ty anedd yn 4 Norton Avenue Prestatyn. |
| 43/2003/0834/PF | Codi cyntedd ffrynt newydd, lolfa haul yn y cefn a iard gyda tho yng nghefn ty annedd yn 42 Beach Road East, Prestatyn.<br>*Yn amodol ar:* Amod Newydd 3<br>3. Rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r iard gyda tho at ddibenion cysylltiedig â thy annedd ac nid ar gyfer unrhyw ddibenion busnes<br>Rheswm: Er mwyn mwynder trigiannol |
| 45/2003/0678/PF | Codi 2 Uned Fân Werthu, newid mynedfeydd cerbydau presennol a ffurfio maes parcio a mannau troi yn 18-20 Stryd y Dyffryn y Rhyl. *Yn amodol ar:* Amod Diwygiedig 6 "defnyddiau" a<br>Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd<br>1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Ychwanegol Priffyrdd ynghlwm Rhifau 1,2,4,5 a 10.<br>2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N ynghlwm (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).<br>3. Tynnir eich sylw at y nodiadau ynghlwm ynghylch ceisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros lwybr troed / llain las dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980. |
| 45/2003/0772/PF | Ar ôl ystyried eglurhad o ran o'r adroddiad ynghylch y gofod llawr presennol ac arfaethedig.<br>Dymchwel yn rhannol yr ystafell arddangos bresennol a chodi estyniad a newydd defnydd i ffurfio uned nad yw yn mân werthu yn 152 Stryd y Dyffryn y Rhyl. *Yn amodol ar:* Amod Diwygiedig 2, 4, 6, ac amod newydd 7:<br>2. Ar gyfer man werthu nwyddau swmpus yn unig y mae hawl i ddefnyddio'r uned ac nid ar gyfer bwyd, nwyddau hwylustod neu nwyddau fel rhai canol tref neu i unrhyw ddiben arall yn Nosbarth Defnydd A1 (man werthu) o Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cynllunio Gwlad a Thref 1987.<br>4. Ychwanegu "Bydd y cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer lleiafswm o 1 lle parcio o leiaf 3.6 medr X 5 medr ar gyfer yr anabl.<br>5. Ychwaneger "...cyn 8.00 a.m. neu ar ôl 8.00 p.m. o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn neu cyn 10.00 a.m. neu ar ôl |

6.00 p.m. ddydd Sul heb gael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol".

7. Ni chaniateir dechrau ar y datblygiad nes bod manylion y gwaith ar gyfer gwaredu dwr wyneb wedi'u cyflwyno ac wedi'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn osgoi gorlwytho'r system garthffosiaeth gyhoeddus.

Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd

11. Tynnir eich sylw at Nodiadau Ychwanegol Priffyrdd sydd ynghlwm, Rhifau 1,24,5, a 10.

2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N ynghlwm (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).

3. Tynnir eich sylw at y nodiadau ynghlwm ynghylch ceisiadau ar gyfer caniatâd i adeiladu croesfan cerbydau dros lwybr troed / llain las o dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980.

46/2003/0158/PF

Datganodd y Cynghorydd Andrew Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr pan oedd yn cael ei ystyried.

Ar ôl ystyried 5 llythyr ychwanegol oddi wrth: Pennaeth Priffyrdd, Dr A P J Lake 21 Bishop Walk; William Matthias, 17 Bishop Walk, Chris Ruane AS.

Codi 39 Aneddle a ffurfio mynedfa gerbydau newydd ar dir ger Ystâd Parc Elwy, oddi ar Llys Dyffryn, Llanelwy.

Penderfynwyd caniatáu ar yr amod fod yr ymgeisydd yn gyntaf yn derbyn Ymrwymiad Adran 106 ar gyfer darparu swm cymudol ar gyfer cynnal mannau agored a naturiol ar y safle neu dâl o flaen llaw ar gyfer cynnal a chadw.

Hefyd yn amodol ar amodau newydd 12 a 13

12 . Cyn ddechrau ar y datblygiad rhaid cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig ynghylch asesiad tawelu traffig ac unrhyw gynllun tawelu traffig yn codi o'r asesiad hwnnw a rhaglen ar gyfer ei weithredu. Yna rhaid gweithredu'r cynllun tawelu traffig cymeradwy yn ei gyfanrwydd yn unol â'r rhaglen a gytunwyd.

Rheswm: Mwyniant trigiannol a diogelwch y ffordd fawr.

13. Cyn ddechrau ar y datblygiad a ganiateir rhaid cyflwyno manylion llwybr ar gyfer y traffig adeiladu a derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Mwyniant trigiannol a diogelwch y ffordd.

Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd:

"Rydych yn gwybod fod moch daear yn agos at y safle ddatblygu. Dylid datblygu mewn modd sy'n sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf Moch Daear a dilyn yr argymhellion sydd yn Adroddiad Bioscan dyddiedig Medi 2000".

(Ataliodd y Cynghorydd N Hugh Jones ei bleidlais a phleidleisiodd Sophia Drew dros wrthod caniatâd)

46/2003/0306/PF

Codi teras o 3 anheddle a newid mynedfa gerbydau bresennol ar dir ger 1 Luke Street, Llanelwy.

Amodau newydd 7, 8 a 9

7. Ni fydd y mannau parcio a throi ar y safle fel sy'n cael eu dangos ar y cynllun cymeradwy ond maent i'w cytuno ymhellach yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn ddechrau ar unrhyw waith ar y safle. Bydd y

mannau parcio a throi cymeradwy wedi'u hadeiladu ac ar gael i'w defnyddio cyn bod neb yn byw yn yr aneddleoedd.
Rheswm: Diogelwch y ffordd fawr.

8. Ni fydd y fynedfa i gerbydau ar y safle fel sy'n cael eu dangos ar y cynllun cymeradwy ond mae i'w chytuno ymhellach yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn ddechrau ar unrhyw waith ar y safle. Bydd y fynedfayn cael ei chwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn bod neb yn byw mewn unrhyw anheddle a ganiateir.
Rheswm: Diogelwch y ffordd fawr.

9. Cyn ddechrau datblygu'r safle rhaid cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei gymeradwyaeth ysgrifenedig ynghylch cynllun ar gyfer cysylltu'r mannau parcio gyda'r eiddo gerllaw yn 1 a 2 Elwy Place a Ty Fry a Bwthyn Ty Fry. Rhaid darparu'r cysylltiadau ar droed cyn bod neb yn byw mewn unrhyw un o'r aneddleodd sydd wedi'u caniatáu.
Rheswm: Er mwyn darparu mannau parcio ar gyfer cerbydau oddi ar y briffordd er mwyn diogelwch y ffordd fawr.

Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:

1. Tynnir eich sylw at Nodiadau Ychwanegol Priffyrdd sydd ynghlwm, Rhifau 1,2,4,5 a 10.
2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N ynghlwm (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).

47/2003/0476/PF

(Datganodd y Cynghorydd E C Edwards ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr pan oedd yn cael ei ystyried)
Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth: Asiant yr Ymgeisydd a'r Cynghorydd N Hugh Jones.
Codi 2 anheddle ar wahân (Newid y math o dy gan roi lolfa haul yn lle ystafell wydr, newidiadau i'r waliau, darparu terasau a manylion proffil gerddi) (ôl weithredol yn rhannol) ar Dir ger Groesffordd Tremeirchion, Llanelwy.
*Yn amodol ar:* Ddiwygio Amod 9

9. Yn ogystal â'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais a ganiatawyd, bydd proffil lefel yr ardd i'r gorllewin o'r lolfeydd haul yn ymestyn hyd at o leiaf 3 medr i gyfeiriad y gorllewin ac yna'n rhedeg yn wastad tuag at y strwythur cynnal o goed.
Rheswm: Er budd mwynder trigiannol a gweledol.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd N Hugh Jones dros wrthod caniatâd).

47/2003/0822/PF

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth: Asiant – yn tynnu dymchwel adeiladau allanol o'r cais.
Dymchwel 2 fflat hunan gynhaliol a throi adeiladau allanol yn anheddle ym Mhlas Yn Cwm, Rhuallt, Llanelwy.
*Yn amodol ar:* Amodau Diwygiedig 2 a 7 ac Amod newydd 8

2. Ni ellir dechrau ar y datblygiad nes bod cynllun manwl o dirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i, a derbyn cymeradwyaeth ysgrifennedig oddi wrth, yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion yr:
(a) holl goed presennol, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y tir, a manylion o ba rai sydd i'w cadw a sut y bwriedir eu diogelu yn ystod y cyfnod datblygu.
(b) coed, gwrychoedd, prysglwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, gan gynnwys cadarnhad o'r rhywogaeth, rhifau a lleoliadau a pha bryd y bwriedir plannu.
(c) y defnyddiau y bwriedir eu defnyddio ar y ffyrdd, llwybr(au) a mannau eraill â wyneb caled.

(d) y gwaith pridd arfaethedig, graddio a thwmpathu tir a newidiadau mewn lefelau, y cyfliniau terfynol a pherthynas y twmpathu arfaethedig gyda'r llystyfiant a ffurf y tir presennol.
(e) lleoliad, dyluniad, defnyddiau a math o derfynau y bwriedir eu codi.

7 Rhaid plannu, hadu, tywyrchu, ffensio, codi waliau ac unrhyw waith tir lunio arall yn y tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad a bydd raid plannu coed neu blanhigion tebyg o ran maint a rhywogaeth yn lle unrhyw un a fydd farw, yn dioddef difrod difrifol neu ddal afiechyd o fewn cyfnod o bum mlynedd yn y tymor plannu nesaf.

Amod newydd 8:

8. Mae'r caniatâd hwn ar gyfer dymchwel 2 fflat hunan gynhaliol a newid adeilad allanol presennol ac nid ar gyfer codi adeilad allanol newydd arfaethedig fel y nodir ar y cynlluniau a gyflwynwyd.

Rheswm: er mwyn osgoi amheuaeth.

(ii) Gwrthodiadau

15/2003/0681/PO

Datblygu tir drwy godi anheddle ar dir ger Maes Awelon, Ffordd Rhiw Iâl, Llanarmon-yn-Iâl, yr Wyddgrug.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd Sophia Drew dros ganiatáu, ataliodd y Cynghorydd P O Williams ei bleidlais)

44/2003/0811/PC

(Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod)
Parhau gyda defnydd tir ar gyfer lleoli carafán i'w ddefnyddio fel swyddfa a llety trigiannol (ôl weithredol) ar dir ym Mharc Busnes HTM, Ffordd Abergele, Rhuddlan, y Rhyl.

45/2003/0818/PS

(Datganodd y Cynghorydd N F Williams diddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr pan oedd yn cael ei drafod)
Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol oddi wrth: Gyngor Tref y Rhyl, Pennaeth Priffyrdd a Miss Emma Adams, Canolfan Busnes Llaneurgain.
Newid Amod 2 ar y caniatâd cynllunio cyf Rhif 45/2003/0267/PF er mwyn caniatáu cynyddu'r nifer o blant ar y safle ar unrhyw un adeg o 56 i 69 yn 85 Ffordd Dyserth, y Rhyl.
*Yn amodol ar:* Newid y rheswm dros wrthod

2. Nid oes digon o ddarpariaeth ar gyfer parcio a cherbydau'n troi ar y safle yn y datblygiad arfaethedig, a fyddai'n golygu cynnydd yn nifer y plant. Mae'n debyg felly y byddai'n achosi i gerbydau barcio ar y briffordd ger y gyffordd. Byddai hefyd yn debygol o olygu cynnydd mewn symudiadau traffig gwrthdaro o amgylch y gyffordd. O ganlyniad, byddai perygl y codai perygl ychwanegol i holl ddefnyddwyr y ffordd gan gynnwys amhariad ar y llif traffig sy'n groes i bolisïau TRA6 a TRA9 Cynllun Datblygu Unedig Sir Ddinbych.

(iii) Gohiriwyd (am y Rhesymau a nodir)

46/2003/0742/PF

Manylion o swyddfa gwersyll, adeilad mwynderau, gosodiad mewnol y safle a ffyrdd cylchredeg, tir lunio yn ôl gofyn

Amodau 2, 6 ac 8 o ganiatâd cynllunio Rhif Cyf. 46/2002/0758/PF yn Spring Gardens The Roe Llanelwy. (Gohiriwyd i geisio cael cynllun tir lunio boddhaol yn unol ag Amod Rhif 8 a hefyd er mwyn datrys y mater o wella'r fynedfa.

**366 ADOLYGU ACHOS GORFODAETH**

Cyflwynwyd: adroddiad gan Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cynllunio yn sôn am waith ar achosion Gorfodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau:

**Masnachu ar Gilan, A55 Rhuallt**

Eglurodd y Swyddogion nad oedd y carafannau, yn dilyn apêl, yn aros yn barhaol ond yn hytrach eu bod yn gadael ar derfyn pob diwrnod. Byddai raid i swyddogion edrych unwaith eto ar faterion megis arwyddion hysbysebu a baneri ar y safleoedd.

**Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych**

Mynegodd yr Aelodau eu siomedigaeth ynghylch cyflwr yr Adeilad Rhestredig pwysig hwn.

Teimlai swyddogion y byddai perchennog newydd yr adeilad yn cydweithio ac y câi'r adeilad sylw'r gaeaf hwn i sicrhau ei fod yn dal dwr.

**204/208 Stryd Fawr, Prestatyn**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pwyllgor nad ymddangosodd perchennog yr adeilad yn y gwrandawiad llys ac y cyflwynwyd gwarant i'w arestio (gyda mechnïaeth).

**115 Coast Road, y Rhyl**

Dywedodd swyddogion na dderbyniwyd penderfyniad yr apel hyd yn hyn ac y gohiriwyd cyflwyno rhybudd gorfodaeth tan hynny.

Yn unol â chais yr aelodau bydd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio Dros Dro'n gofyn i Safonau Masnach ymchwilio i ba mor ddiogel yw rhai o'r cerbydau ar y safle.

**Gwasg Gee Dinbych**

Holodd y Cynghorydd Neville Hughes ynghylch y mesurau diogelwch ar y safle.

Dywedodd y swyddogion eu bod yn fodlon gyda'r gwaith ar gyfer dal dwr a diogelu'r safle.

**367 MATERION GORFODAETH**

| | |
|---|---|
| ENF/2003/28 | (Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei ystyried). Newid defnydd tir drwy osod carafán barhaol arno i ddibenion trigiannol ar dir ger uned 10, Parc Busnes HTM, Ffordd Abergele, Rhuddlan.<br>PENDERFYNWYD: Awdurdodi<br>(i) cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau fod y defnydd trigiannol yn darfod a bod y garafán yn cael ei symud oddi ar y safle.<br>(ii) cychwyn achos erlyn neu weithredu fel arall fel bo'n addas o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn yr unigolyn neu unigolion y cyflwynir |

Rhybudd Gorfodaeth neu rybudd arall iddynt, os nad ydynt yn cydymffurfio â'i ofynion.

**368 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Gan nad oedd angen ymweliad safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**369. RHESTR O GEISIADAU Y DELIWYD Â NHW O DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a rannwyd o'r blaen) ynghylch ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo fo o dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af Gorffennaf 2003 – 31ain Gorffennaf 2003.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.35 a.m.

**********